

Adroddiad ar Arolygiad Gofal Iechyd Annibynnol (lle rhoddwyd rhybudd)

CosmeticliniC, Caerffili

Dyddiad yr arolygiad: 03 Rhagfyr 2025

Dyddiad cyhoeddi: 05 Mawrth 2026



Gellir darparu'r cyhoeddiad hwn a gwybodaeth arall gan AGIC mewn fformatau neu ieithoedd amgen ar gais. Bydd oedi byr wrth i ieithoedd a fformatau eraill gael eu cynhyrchu pan ofynnir amdanynt i ddiwallu anghenion unigol. Cysylltwch â ni am gymorth.

Bydd copïau o'r holl adroddiadau, pan gânt eu cyhoeddi, ar gael ar ein [gwefan](#) neu drwy gysylltu â ni:

Yn ysgrifenedig:

Rheolwr Cyfathrebu
Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru
Llywodraeth Cymru
Parc Busnes Rhyd-y-car
Merthyr Tudful
CF48 1UZ

Neu

Ffôn: 0300 062 8163
E-bost: agic@llyw.cymru
Gwefan: www.agic.org.uk

ISBN Digidol 978-1-83745-188-3

© Hawlfraint y Goron 2026

Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) yw arolygiaeth a rheoleiddiwr annibynnol gofal iechyd yng Nghymru

Ein diben

Gwirio bod gwasanaethau gofal iechyd yn cael eu darparu mewn ffordd sy'n mwyafu iechyd a llesiant pobl.

Ein gwerthoedd

Mae pobl wrth wraidd yr hyn a wnawn. Rydym yn:


- Annibynnol - rydym yn ddiduedd, yn penderfynu pa waith rydym yn ei wneud a lle rydym yn ei wneud
- Gwrthrychol - rydym yn rhesymol ac yn deg ac yn gweithredu ar sail tystiolaeth
- Pendant - rydym yn gwneud dyfarniadau clir ac yn cymryd camau i wella safonau gwael ac amlygu'r arferion da rydym yn dod ar eu traws
- Cynhwysol - rydym yn gwerthfawrogi ac yn annog cydraddoldeb ac amrywiaeth drwy ein gwaith
- Cymesur - rydym yn ystwyth ac yn gwneud ein gwaith lle mae o'r pwys mwyaf

Ein nod

Bod yn llais dibynadwy sy'n ysgogi gwelliant mewn gofal iechyd ac yn dylanwadu arno

Ein blaenoriaethau

- Byddwn yn canolbwyntio ar ansawdd y gofal iechyd a ddarperir i bobl a chymunedau wrth iddynt gyrchu gwasanaethau, eu defnyddio a symud rhyngddynt
- Byddwn yn addasu ein dull gweithredu i sicrhau ein bod yn ymatebol i risgiau i ddiogelwch cleifion sy'n dod i'r amlwg
- Byddwn yn cydweithio er mwyn ysgogi'r gwaith o wella systemau a gwasanaethau ym maes gofal iechyd
- Byddwn yn cefnogi ac yn datblygu ein gweithlu i'w galluogi nhw, a'r sefydliad, i gyflawni ein blaenoriaethau.



Cynnwys

1. Yr hyn a wnaethom.....	5
2. Crynodeb o'r arolygiad	6
3. Yr hyn a nodwyd gennym	9
Ansawdd Profiad y Claf	9
Darparu Gofal Diogel ac Effeithiol	Error! Bookmark not defined.
Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth	16
4. Y camau nesaf.....	17
Atodiad A - Crynodeb o bryderon a ddatryswyd yn ystod yr arolygiad.....	18
Atodiad B - Cynllun gwella ar unwaith.....	20
Atodiad C - Cynllun gwella	21

1. Yr hyn a wnaethom

Ceir manylion llawn am y ffordd rydym yn arolygu'r GIG ac yn rheoleiddio darparwyr gofal iechyd annibynnol yng Nghymru ar ein [gwefan](#).

Cwblhaodd Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) arolygiad lle rhoddwyd rhybudd o CosmeticliniC, Canolfan Iechyd Bedwas, Caerffili ar 03 Rhagfyr 2025.

Cynhaliwyd yr arolygiad gan ddau arolygydd gofal iechyd AGIC.

Lle bo dyfyniadau yn y cyhoeddiad hwn, mae'n bosibl eu bod wedi cael eu cyfieithu o'u hiaith wreiddiol.

Noder bod canfyddiadau'r arolygiad yn ymwneud â'r adeg y cynhaliwyd yr arolygiad.

2. Crynodeb o'r arolygiad

Ansawdd Profiad y Claf

Crynodeb cyffredinol:

Gwelsom fod CosmeticliniC yn ymrwymedig i roi profiad cadarnhaol i gleifion mewn amgylchedd glân a dymunol. Roedd yr ystafell drin yn gyfforddus, yn drefnus ac yn cynnal preifatrwydd ac urddas y cleifion.

Roedd cleifion yn cael ymgynghoriad llawn ac yn cael digon o wybodaeth cyn ac ar ôl y driniaeth i'w galluogi i wneud penderfyniadau gwybodus.

Yn ddiweddar, roedd y clinig wedi symud o'r llawr cyntaf i'r llawr gwaelod a oedd wedi gwella hygrychedd i gleifion ag anawsterau symudedd. Dywedodd pob un o'r cleifion a gwblhaodd holiadur AGIC fod y gwasanaeth yn dda iawn.

Rydym yn argymhell y gall y gwasanaeth wella'r canlynol:

- Datblygu polisi hebryngwyr
- Sicrhau y caiff cydsyniad ar sail gwybodaeth ei gofnodi ym mhob ymweliad lle rhoddir triniaeth
- Adolygu'r polisi cydsynio i gynnwys y weithdrefn i'w dilyn pan na fydd gan glaf alluedd i gydsynio i driniaeth.

Dyma beth roedd y gwasanaeth yn ei wneud yn dda:

- Trin y cleifion ag urddas a pharch
- Gofyn yn weithredol am adborth gan gleifion ar ôl triniaeth gyda llawer o adolygiadau cadarnhaol i'w gweld ar wefan y clinig.

Darparu Gofal Diogel ac Effeithiol

Crynodeb cyffredinol:

Yn ôl pob golwg, roedd y clinig yn cael ei gynnal a'i gadw'n dda ac roedd yn cynnwys cyfarpar addas i ddarparu'r gwasanaethau y mae wedi'i gofrestru i'w darparu. Roedd yn ymddangos bod pob ardal yn lân iawn. Gwelsom fod trefniadau addas ar waith i waredu gwastraff clinigol.

Roedd asesiad risg tân dilys ar waith, a gwelsom fod arwyddion clir ar gyfer yr allanfeydd brys ac nad oedd unrhyw rwystrau. Roedd y diffoddwyr tân wedi cael eu gwasanaethu yn ystod y flwyddyn ddiwethaf ac roedd system chwistrellu newydd wedi'i gosod. Fodd bynnag, nid oedd y cyfarpar canfod tân yn cael ei brofi'n rheolaidd.

Roedd gan y clinig gontract Cynghorydd Diogelu rhag Laserau ar waith ac roedd Rheolau Lleol a phrotocolau meddygol cyfredol ar gael. Roedd y peiriant laser wedi cael ei wasanaethu, ac roedd cyfarpar amddiffyn y llygaid addas ar gael ac roedd mewn cyflwr da.

Gwelsom fod peiriant goleuni pwls dwys (IPL) anghofrestredig yn y clinig ond ni welsom unrhyw dystiolaeth ei fod wedi cael ei ddefnyddio ar gleifion. Gwnaethom awgrymu y dylai'r rheolwr cofrestredig sicrhau ei fod yn cael ei gofrestru cyn darparu triniaethau IPL.

Gwelsom nad oedd yr hyfforddiant ar atal a rheoli heintiau, ymwybyddiaeth o ddiogelwch tân na chymorth cyntaf yn gyfredol. Cawsant eu cwblhau yn syth ar ôl yr arolygiad. Nid oedd pecyn cymorth cyntaf addas ar gael ar unwaith, a chafodd pecyn newydd ei archebu yn ystod yr arolygiad.

Ceir rhagor o wybodaeth am y materion a nodwyd gennym, a'r camau a gymerwyd gan y gwasanaeth, yn [Atodiad A](#).

Rydym yn argymhell y gall y gwasanaeth wella'r canlynol:

- Cynnal asesiad risg iechyd a diogelwch yn y clinig
- Arddangos arwyddion rhybudd ar gyfer peryglon baglu
- Adolygu polisiau diogelu i gynnwys manylion cyswllt y timau diogelu lleol
- Cofnodi'r gwiriadau dyddiol o'r peiriant laser
- Rhoi system ar waith i asesu a monitro ansawdd y gwasanaethau a ddarperir yn rheolaidd yn unol â'r rheoliadau.

Dyma beth roedd y gwasanaeth yn ei wneud yn dda:

- Roedd yr ystafelloedd trin ac ardal y dderbynfa yn ymddangos yn lân ac yn daclus
- Roedd profion gosodiadau trydanol, Profion Offer Cludadwy (PAT) a gwiriadau diogelwch nwy cyfredol ar waith.

Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth

Crynodeb cyffredinol:

Y rheolwr cofrestredig sy'n berchen ar CosmeticliniC, ac ef yw unig weithredwr y peiriant laser hefyd. Roedd y rheolwr cofrestredig yn frwdfrydig ac yn wybodus am y triniaethau a gynigir yn y clinig a gwelsom ei fod yn ymrwymedig iawn i ddarparu gofal o ansawdd uchel i'r cleifion.

Gwelsom fod amrywiaeth eang o bolisiau ar waith i helpu i safoni prosesau a gweithrediadau'r clinig. Fodd bynnag, roeddem o'r farn bod angen i'r polisiau diogelu a chydsynio fod yn fanylach.

Roedd gweithdrefn gwyno ysgrifenedig briodol ar waith. Fodd bynnag, dim ond un gŵyn a oedd wedi'i chofnodi ar ffeil a oedd yn ymwneud â sgam twyll gofal iechyd.

Rydym yn argymhell y gall y gwasanaeth wella'r canlynol:

- Cofrestru'r peiriant IPL ag AGIC cyn darparu triniaeth gan ddefnyddio'r peiriant hwn.

Dyma beth roedd y gwasanaeth yn ei wneud yn dda:

- Rheolwr cofrestredig brwdfrydig, cyfeillgar a gwybodus.

3. Yr hyn a nodwyd gennym

Ansawdd Profiad y Claf

Urddas a pharch

Roedd gan CosmeticliniC un ystafell ar gyfer triniaethau laser wedi'i lleoli ar y llawr gwaelod. Roedd yn ymddangos bod y clinig yn lân ac yn daclus, ac nid oedd unrhyw annibendod. Roedd gan yr ystafell drin ddrws y gellid ei gloi a oedd yn cynnig lle preifat i'r cleifion newid. Roedd tywelion ar gael i'r cleifion eu defnyddio yn ystod triniaethau i ddiogelu eu hurddas.

Roedd ymgynghoriadau â chleifion yn cael eu cynnal mewn swyddfa ar wahân i sicrhau cyfrinachedd y claf. Dywedwyd wrthym fod modd defnyddio hebryngwyr ond nid oedd polisi yn esbonio sut y byddai'r gwasanaeth hwn yn cael ei ddarparu.

Rhaid i'r rheolwr cofrestredig ddatblygu polisi hebryngwyr a rhoi copi i AGIC pan fydd wedi'i gwblhau.

Dywedodd pob un o'r chwe chlaf a gwblhaodd holiadur cleifion AGIC eu bod wedi cael eu trin ag urddas a pharch a bod mesurau wedi cael eu cymryd i ddiogelu eu preifatrwydd.

Cyfathrebu'n effeithiol

Gwnaethom ddarllen datganiad o ddiben y clinig a'r canllaw i gleifion ac roedd y ddau yn cydymffurfio â'r rheoliadau. Gwelsom fod y canllaw i gleifion yn cynnwys crynodeb o'r weithdrefn gwyno a thelerau ac amodau triniaethau, gyda chostau triniaethau ar gael ar restr prisiau ar wahân. Gwelsom hefyd fod y rhestr prisiau wedi'i harddangos yn nerbynfa'r clinig ac ar wefan y clinig. Dywedwyd wrthym fod cost triniaethau yn cael ei hesbonio'n llawn yn ystod y broses ymgynghori, a gwelsom fod hyn yn cael ei gofnodi yn y ddogfen cydsyniad a'i gwrthlofnodi gan y claf.

Nid oedd unrhyw aelodau o staff sy'n siarad Cymraeg yn cael eu cyflogi yn y clinig, ac nid oedd gwasanaethau cyfieithu'n cael eu darparu. Pe na fyddai'r staff yn gallu deall y cleifion yn ddigon da, dywedwyd wrthym na fyddai modd cynnal y driniaeth.

Gellid trefnu apwyntiadau ar gyfer ymgynghoriadau a thriniaethau dros e-bost, drwy ddolen i'r wefan, drwy neges destun neu dros y ffôn.

Gwybodaeth i gleifion a chydsyniad cleifion

Gwnaethom edrych ar y gofrestr o driniaethau laser fel sy'n ofynnol gan y rheoliadau a gwelsom ei bod yn eglur, yn drefnus ac yn hawdd ei dilyn, er ein bod wedi gweld dau gofnod dyblyg ar y gofrestr. Gwnaethom drafod pwysigrwydd cymryd mwy o ofal wrth gwblhau'r gofrestr er mwyn osgoi gwallau posibl.

Yn ystod yr arolygiad, gwnaethom edrych ar sampl o gofnodion pum claf a gwelsom fod dynodyddion cleifion priodol wedi cael eu defnyddio. Roedd nodiadau unigol am bob triniaeth ddilynol a ddarparwyd a oedd wedi'u llofnodi gan y claf i nodi ei gydsyniad parhaus. Fodd bynnag, gwelsom sawl achos lle roedd cydsyniad parhaus ar goll.

Rhaid i'r rheolwr cofrestredig sicrhau y caiff cydsyniad ar sail gwybodaeth ei gofnodi bob amser yng nghofnodion y cleifion yn ystod pob ymweliad lle rhoddir triniaeth.

Gwelsom fod gan y clinig bolisi cydsyniad ysgrifenedig cyfredol ar waith, a oedd yn cynnwys asesiad o alluedd y cleifion i roi cydsyniad. Fodd bynnag, prin oedd y manylion am y weithdrefn y byddai'r clinig yn ei dilyn pe nodwyd nad oes gan glaf y galluedd hwn.

Rhaid i'r rheolwr cofrestredig adolygu'r polisi cydsynio i gynnwys mwy o fanylion am y weithdrefn i'w dilyn pan nodir nad oes gan glaf y galluedd i gydsynio i driniaeth.

Cynllunio a darparu gofal

Gwelsom dystiolaeth bod y cleifion yn cael ymgynghoriad llawn cyn cytuno i unrhyw driniaethau a oedd yn cynnwys trafodaeth am risgiau a manteision y triniaeth honno. Dywedwyd wrthym fod canllawiau cyn triniaeth a chanllawiau ôl-ofal yn cael eu rhoi i bob claf. Cawsom sicrwydd bod y cleifion yn cael digon o wybodaeth i wneud penderfyniad gwybodus am eu triniaeth.

Gwelsom dystiolaeth yn y cofnodion bod y cleifion yn cael prawf croen cyn dechrau cwrs o driniaeth er mwyn helpu i bennu'r tebygolrwydd o unrhyw adweithiau niweidiol.

Dywedodd y chwe ymatebydd i holiadur cleifion AGIC eu bod yn cael digon o wybodaeth i ddeall yr opsiynau o ran triniaethau, a'u risgiau a'u manteision, a bod cost y cwrs o driniaeth wedi cael eu hesbonio iddynt.

Cadarnhaodd pum ymatebydd eu bod wedi cael cyfarwyddiadau ôl-ofal a chanllawiau ynghylch beth i'w wneud pe byddent yn cael haint. Nid atebodd yr ymatebydd arall y cwestiynau hyn.

Cydraddoldeb, amrywiaeth a hawliau dynol

Cawsom sicrwydd bod y clinig yn amgylchedd cynhwysol, p'un a oedd gan unigolyn unrhyw nodwedd warchodedig ai peidio, a bod pob aelod o staff a chlaf yn cael ei drin yn deg. Dywedwyd wrthym y byddai hawliau dynol cleifion trawsryweddol yn cael eu cynnal ac y byddai enwau a rhagenwau a ffefrir yn cael eu defnyddio yn ôl y gofyn. Gwelsom fod polisi cydraddoldeb ac amrywiaeth addas ar waith ar adeg yr arolygiad

Roedd mynediad gwastad i'r adeilad o'r stryd gyda ramp wedi'i osod y tu mewn i'r clinig i sicrhau mynediad i ddefnyddwyr cadair olwyn i'r ystafelloedd trin a'r toiled i gleifion.

Ymgysylltu â dinasyddion a'u hadborth

Dywedwyd wrthym y gofynnir i gleifion am adborth ar ôl eu triniaeth a bod cleifion yn cael eu cyfeirio at y botwm adborth ar wefan y clinig. Ceir adborth hefyd drwy adolygiadau ar-lein. Gwelsom fod llawer o adolygiadau wedi'u rhannu ar wefan y clinig, yr oedd pob un ohonynt yn gadarnhaol.

Dywedodd y rheolwr cofrestredig fod adborth yn cael ei asesu a'i ddadansoddi'n barhaus. Dywedwyd wrthym fod y clinig wedi symud o'r llawr cyntaf i'r llawr gwaelod er mwyn helpu cleifion ag anawsterau symudedd. Gan fod yr adborth yn gadarnhaol ar y cyfan, dywedwyd wrthym nad oedd unrhyw awgrymiadau wedi'u gwneud gan y cleifion i'w hystyried.

Dywedodd pob un o'r chwe chlaf a gwblhaodd holiadur cleifion AGIC fod y gwasanaeth a ddarperir yn dda iawn.

Darparu Gofal Diogel ac Effeithiol

Rheoli risg ac iechyd a diogelwch

Roedd yr adeilad yn ymddangos fel petai'n cael ei gynnal a'i gadw'n dda yn fewnol ac yn allanol, gyda mesurau diogelwch addas ar waith i atal mynediad heb awdurdod. Roedd y clinig yn cynnwys derbynfa ac ystafell aros ynghyd ag ystafelloedd ar wahân ar gyfer triniaethau laser a'r gwasanaethau eraill a gynigir. Roedd yr ystafell ar gyfer triniaethau laser yn lân ac yn gyfforddus ac roedd yn cynnwys cyfarpar addas.

Ni lwyddodd rheolwr y practis i ddarparu asesiad risg iechyd a diogelwch i ddangos sut mae'r clinig wedi asesu a lliniaru unrhyw beryglon o'r fath. Gwelsom fod ardal isel wedi'i chodi a ramp bach yn y fynedfa i'r cyntedd sy'n arwain at yr ystafelloedd trin, a oedd yn peri peryglon baglu i unrhyw un nad oeddent yn ymwybodol ohonynt.

Rhaid i'r rheolwr cofrestredig wneud y canlynol:

- Trefnu i asesiad risg iechyd a diogelwch gael ei gwblhau yn y clinig a rhoi copi ohono i AGIC fel tystiolaeth.
- Arddangos arwyddion rhybudd addas ar gyfer unrhyw beryglon a nodir, gan gynnwys y rhai a welwyd fel rhan o'r arolygiad.

Gwnaethom gadarnhau bod yr Adroddiad ar Gyflwr Gosodiadau Trydanol (EICR) a gynhelir bob pum mlynedd a'r Profion Offer Cludadwy (PAT) wedi'u cynnal yn ddiweddar. Roedd tystysgrifau diogelwch nwy ar gyfer y safle wedi'u cyhoeddi o fewn y 12 mis diwethaf.

Gwnaethom edrych ar drefniadau diogelwch tân y clinig a oedd yn cynnwys asesiad risg tân cyfredol. Roedd arwyddion clir ar gyfer yr allanfeydd tân ac nid oedd unrhyw rwystrau, ac roedd diffoddwyr tân ar gael ac wedi cael eu gwasanaethu o fewn y flwyddyn ddiwethaf. Roedd system chwistrellu rhag tân lawn wedi'i gosod. Fodd bynnag, gwelsom nad oedd gwiriadau rheolaidd yn cael eu cynnal o'r system larwm tân ar hyn o bryd.

Rhaid i'r rheolwr cofrestredig drefnu gwiriadau rheolaidd o'r cyfarpar canfod tân a chadw cofnod fel tystiolaeth.

Gwelsom hefyd nad oedd hyfforddiant ymwybyddiaeth o ddiogelwch tân wedi cael ei gwblhau. Gwnaethom godi'r mater hwn ar unwaith â'r rheolwr cofrestredig, a gwblhaodd y cwrs yn syth ar ôl yr arolygiad.

Ceir rhagor o wybodaeth am y materion a nodwyd gennym, a'r camau a gymerwyd gan y gwasanaeth, yn [Atodiad A](#).

Gwnaethom edrych ar drefniadau cymorth cyntaf y clinig ond gwelsom nad oedd hyfforddiant cymorth cyntaf cyfredol wedi'i gwblhau. Gwelsom hefyd nad oedd pecyn cymorth cyntaf addas ar gael yn y clinig. Gwnaethom godi'r materion hyn ar unwaith â'r rheolwr cofrestredig, a archebodd becyn cymorth cyntaf newydd yn ystod yr arolygiad. Cafodd hyfforddiant cymorth cyntaf ei drefnu a'i gwblhau yn fuan ar ôl yr arolygiad.

Ceir rhagor o wybodaeth am y materion a nodwyd gennym, a'r camau a gymerwyd gan y gwasanaeth, yn [Atodiad A](#).

Atal a rheoli heintiau a dihalogi

Roeddem o'r farn bod y clinig yn lân ac yn daclus yr olwg a bod y dodrefn a'r cyfarpar i gyd mewn cyflwr da a bod modd sychu arwynebau'n hawdd. Disgrifiodd y rheolwr cofrestredig brosesau rheoli heintiau clinigol addas. Er bod polisi atal a rheoli heintiau cynhwysfawr ar waith, ni lwyddodd y rheolwr cofrestredig i roi tystiolaeth bod hyfforddiant perthnasol wedi'i gwblhau. Gwnaethom godi'r mater hwn ar unwaith â'r rheolwr cofrestredig, a gwblhaodd y cwrs yn syth ar ôl yr arolygiad.

Ceir rhagor o wybodaeth am y materion a nodwyd gennym, a'r camau a gymerwyd gan y gwasanaeth, yn [Atodiad A](#).

Dywedodd pob un o'r chwe chlaf a gwblhaodd holiadur cleifion AGIC fod mesurau atal a rheoli heintiau yn cael eu dilyn a bod y lleoliad yn lân iawn, yn eu barn nhw.

Gwelsom fod contract addas ar waith ar gyfer casglu a gwaredu gwastraff clinigol. Roedd gwastraff clinigol yn cael ei storio ar y safle tan iddo gael ei gasglu. Fodd bynnag, roedd hynny mewn ardal y gallai'r cleifion fynd iddi yn hawdd. Gwnaethom godi'r mater hwn â'r rheolwr cofrestredig, a aeth ati ar unwaith i symud y gwastraff i ystafell wedi'i chloi yn ystod yr arolygiad.

Ceir rhagor o wybodaeth am y materion a nodwyd gennym, a'r camau a gymerwyd gan y gwasanaeth, yn [Atodiad A](#).

Diogelu plant a diogelu oedolion sy'n agored i niwed

Roedd y clinig wedi'i gofrestru i ddarparu triniaeth i gleifion 18 oed a throsodd. Gwelsom dystiolaeth bod hyfforddiant diogelu wedi'i gwblhau a'i fod yn gyfredol. Roedd gan y rheolwr cofrestredig fynediad ar-lein i Weithdrefnau Diogelu Cymru. Fodd bynnag, gwelsom nad oedd polisïau diogelu'r clinig ar gyfer oedolion na

phlant yn cynnwys digon o fanylion gan gynnwys gwybodaeth gyswllt ar gyfer y timau diogelu lleol.

Rhaid i'r rheolwr cofrestredig adolygu'r polisïau ar gyfer diogelu plant ac oedolion agored i niwed i sicrhau eu bod yn gynhwysfawr ac yn berthnasol i'r clinig a'u bod yn cynnwys y manylion cyswllt priodol ar gyfer y timau diogelu lleol. Dylid darparu copi i AGIC pan fydd hyn wedi'i gwblhau.

Dyfeisiau, cyfarpar a systemau diagnostig meddygol

Gwelsom fod y peiriant laser yn cyfateb i'r peiriant a oedd wedi'i gofrestru ag AGIC a bod y gwiriadau gwasanaethu a chalibradu blynyddol yn gyfredol lle bo'n ofynnol. Gwelsom hefyd fod y clinig wedi cael peiriant goleuni pwls dwys (IPL). Dywedwyd wrthym nad oedd wedi cael ei ddefnyddio ar gleifion ac ni welsom unrhyw dystiolaeth i awgrymu'n wahanol. Gwnaethom drafod y dylid sicrhau bod y peiriant ychwanegol hwn wedi'i gofrestru ag AGIC cyn rhoi unrhyw driniaethau i gleifion.

Roedd contract ar waith gyda Chynghorydd Diogelu rhag Laserau (LPA), a oedd wedi cwblhau asesiad risg cynhwysfawr ar gyfer y laser. Roedd rheolau lleol yn nodi sut i ddefnyddio'r peiriant laser yn ddiogel ar gael ac wedi cael eu hadolygu o fewn y flwyddyn ddiwethaf. Gwelsom fod protocolau triniaethau cyfredol wedi'u cymeradwyo gan ymarferydd meddygol arbenigol hefyd ar gael.

Dywedwyd wrthym fod gwiriadau o'r cyfarpar laser a gwiriadau diagnosteg ar y systemau yn cael eu cynnal bob dydd. Fodd bynnag, ni welsom unrhyw dystiolaeth bod y gwiriadau hyn yn cael eu cofnodi.

Rhaid i'r rheolwr cofrestredig sicrhau y caiff gwiriadau dyddiol o'r peiriant laser eu cynnal a'u cofnodi.

Gofal diogel a chlinigol effeithiol

Roedd cyfarpar amddiffyn y llygaid ar gael i'r cleifion a'r gweithredwr laser. Gwelsom fod y rhain yn lân, mewn cyflwr da ac yn gyson â'r gofynion a nodir yn y rheolau lleol.

Roedd arwyddion y tu allan i'r ystafell drin i nodi presenoldeb y peiriant laser a chlo i atal mynediad heb awdurdod pan fyddai'r peiriant yn cael ei ddefnyddio. Roedd trefniadau addas ar waith i sicrhau bod y peiriant laser yn ddiogel pan nad oedd yn cael ei ddefnyddio.

Cymryd rhan mewn gweithgareddau gwella ansawdd

Gwelsom dystiolaeth o'r archwiliadau a gynhelir yn y clinig. Dywedwyd wrthym fod y gwasanaeth yn monitro gwybodaeth sy'n berthnasol i'r diwydiant ac yn adolygu adborth er nad oedd unrhyw themâu wedi'u nodi. Fodd bynnag, nid oedd unrhyw

system wedi'i dogfennu ar waith i asesu ansawdd y gwasanaeth a ddarperir yn unol â'r rheoliadau. Byddai hyn hefyd yn cynnwys ystyried cyngor arbenigol ac adolygiadau cenedlaethol fel rhan o weithgareddau'r clinig i wella ansawdd.

Rhaid i'r rheolwr cofrestredig roi system ar waith i asesu a monitro ansawdd y gwasanaethau a ddarperir yn rheolaidd yn unol â'r rheoliadau.

Rheoli cofnodion

Disgrifiwyd prosesau addas i atal mynediad heb awdurdod i ddata personol gan drydydd partiön. Gwelsom fod y cyfnodau cadw data a'r trefniadau gwaredu data yn briodol.

Er i ni weld bod trefniadau priodol ar waith yn y clinig i sicrhau bod cofnodion y cleifion yn cael eu cadw'n ddiogel yn y gwasanaeth, ni lwyddodd y rheolwr cofrestredig i ddarparu cofnodion triniaeth ar gyfer un claf ar gais.

Rhaid i'r rheolwr cofrestredig sicrhau bod y prosesau ar gyfer cadw a ffeilio data yn y clinig yn cael eu cymhwyso'n gadarn er mwyn sicrhau y caiff data cleifion eu storio a'u caffael yn effeithiol.

Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth

Fframwaith llywodraethu ac atebolrwydd

Y rheolwr cofrestredig sy'n berchen ar CosmeticliniC, ac ef yw unig weithredwr y peiriant laser hefyd. Gwelsom fod tystysgrif cofrestru ac amodau cofrestru AGIC wedi'u harddangos fel sy'n ofynnol gan y rheoliadau. Gwelsom fod yswiriant atebolrwydd cyhoeddus cyfredol ar waith.

Gwnaethom edrych ar amrywiaeth o bolisiau a gweithdrefnau. Dywedwyd wrthym fod y polisiau wedi'u darparu gan y Cynghorydd Diogelu rhag Laserau ac y byddai'r rheolwr cofrestredig yn eu hadolygu a'u diwygio yn ôl yr angen i sicrhau eu bod yn berthnasol i'r clinig. Heblaw am ychwanegu rhagor o fanylion i'r polisiau diogelu a chydysnio, roeddem o'r farn eu bod yn briodol.

Delio â phryderon a rheoli digwyddiadau

Roedd gweithdrefn gwyno ysgrifenedig ar waith yn y clinig, a oedd wedi'i chrynhof yn y datganiad o ddiben a'r canllaw i gleifion. Roedd y weithdrefn hon yn nodi y byddai pob cwyn yn cael ei chydnabod a'i datrys o fewn amserlen benodol.

Dywedwyd wrthym y byddai pob cwyn yn cael ei chofnodi mewn ffeil cwynion. Ar adeg yr arolygiad, dim ond un gŵyn a oedd wedi'i chofnodi yn y ffeil, a gwelwyd ei bod yn ymwneud â sgam.

Arferion recriwtio a chyflogi'r gweithlu

Gan mai'r rheolwr cofrestredig yw unig gyflogai'r clinig, nid oedd unrhyw arferion recriwtio a chyflogi'r gweithlu mewn perthynas â chyflogeion.

Cynllunio'r gweithlu a hyfforddiant

Gwelsom dystiolaeth bod y rheolwr cofrestredig wedi cwblhau hyfforddiant Craidd Gwybodaeth

a hyfforddiant y gweithgynhyrchwr ar ddefnyddio'r peiriant laser. Fodd bynnag, ni lwyddodd i roi tystiolaeth o hyfforddiant ar ddefnyddio'r peiriant IPL. Gwnaethom drafod y dylid sicrhau bod yr hyfforddiant ychwanegol hwn yn cael ei gwblhau cyn dechrau triniaethau gan ddefnyddio'r peiriant hwn.

4. Y camau nesaf

Lle rydym wedi nodi gwelliannau a phryderon uniongyrchol yn ystod ein harolygiad y mae'n ofynnol i'r gwasanaeth gymryd camau yn eu cylch, nodir y rhain yn y ffyrdd canlynol yn atodiadau'r adroddiad hwn (lle y bônt yn gymwys):

- Atodiad A: Yn cynnwys crynodeb o unrhyw bryderon am ddiogelwch cleifion a gafodd eu huwchgysfeirio a'u datrys yn ystod yr arolygiad
- Atodiad B: Yn cynnwys unrhyw bryderon uniongyrchol am ddiogelwch cleifion lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella ar unwaith yn dweud wrthym am y camau brys y mae'n eu cymryd
- Atodiad C: Yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad, lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella sy'n dweud wrthym am y camau y mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn.

Dylai'r cynlluniau gwella wneud y canlynol:

- Nodi'n glir sut yr ymdrinnir â'r canfyddiadau a nodwyd
- Sicrhau bod y camau a gymerir mewn ymateb i'r materion a nodwyd yn benodol, yn fesuradwy, yn gyflawnadwy, yn realistig ac wedi'u hamseru
- Cynnwys digon o fanylion er mwyn rhoi sicrwydd i AGIC a'r cyhoedd yr ymdrinnir â'r canfyddiadau a nodwyd yn ddigonol
- Sicrhau bod y dystiolaeth ofynnol yn erbyn y camau a nodwyd yn cael ei rhoi i AGIC o fewn tri mis i'r arolygiad.

O ganlyniad i ganfyddiadau'r arolygiad hwn, dylai'r gwasanaeth wneud y canlynol:

- Sicrhau nad yw'r canfyddiadau yn systemig ar draws rhannau eraill o'r sefydliad ehangach
- Rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i AGIC pan fydd camau yn dal i fod heb eu cymryd a/neu ar y gweill, er mwyn cadarnhau pan fyddant wedi cael eu cwblhau.

Caiff y cynllun gwella, ar ôl cytuno arno, ei gyhoeddi ar [wefan](#) AGIC.

Atodiad A - Crynodeb o bryderon a ddatryswyd yn ystod yr arolygiad

Mae'r tabl isod yn crynhoi'r pryderon a gafodd eu nodi a'u huwchgyfeirio yn ystod ein harolygiad. Oherwydd yr effaith/effaith bosibl ar ofal a thriniaeth cleifion, roedd angen rhoi sylw i'r pryderon hyn ar unwaith, yn ystod yr arolygiad.

Pryderon uniongyrchol a nodwyd	Effaith/effaith bosibl ar ofal a thriniaeth y cleifion	Sut gwnaeth AGIC uwchgyfeirio'r pryder	Sut cafodd y pryder ei ddatrys
Gwelsom nad oedd hyfforddiant ymwybyddiaeth o ddiogelwch tân wedi cael ei gwblhau.	Roedd risg bosibl i gleifion pe bai tân.	Gwnaethom godi'r mater hwn ar unwaith â'r rheolwr cofrestredig.	Cwblhawyd hyfforddiant perthnasol ar ddiogelwch tân yn syth ar ôl yr arolygiad.
Gwelsom nad oedd hyfforddiant cymorth cyntaf cyfredol wedi'i gwblhau.	Roedd risg bosibl i gleifion pe byddai argyfwng neu ddamwain.	Gwnaethom godi'r mater hwn ar unwaith â'r rheolwr cofrestredig.	Cafodd hyfforddiant cymorth cyntaf ei drefnu a'i gwblhau yn fuan ar ôl yr arolygiad.
Nid oedd pecyn cymorth cyntaf addas yn y clinig.	Roedd risg bosibl i gleifion pe byddai anaf neu ddamwain.	Gwnaethom godi'r mater hwn ar unwaith â'r rheolwr cofrestredig.	Archebwyd pecyn cymorth cyntaf newydd ar ddiwrnod yr arolygiad.

Gwelsom nad oedd hyfforddiant ar atal a rheoli heintiau wedi cael ei gwblhau.	Roedd risg bosibl i gleifion o ran dod i gysylltiad â haint.	Gwnaethom godi'r mater hwn ar unwaith â'r rheolwr cofrestredig.	Cafodd hyfforddiant perthnasol ar atal a rheoli heintiau ei gwblhau yn syth ar ôl yr arolygiad.
Gwelsom wastraff clinigol wedi'i storio mewn ardal y gall y cleifion fynd ati'n hawdd.	Roedd risg bosibl i gleifion o ran dod i gysylltiad â haint.	Gwnaethom godi'r mater hwn ar unwaith â'r rheolwr cofrestredig.	Cafodd y gwastraff clinigol ei symud i ystafell dan glo yn y clinig.

Atodiad B- Cynllun gwella ar unwaith

Gwasanaeth: CosmeticliniC

Dyddiad yr arolygiad: 03 Rhagfyr 2025

Mae'r tabl isod yn cynnwys unrhyw bryderon uniongyrchol am ddiffyg cydymffurfio sy'n ymwneud â diogelwch cleifion a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella ar unwaith sy'n nodi'r camau brys y mae'n eu cymryd.

Yr hyn sydd angen ei wella	Safon/ Rheoliad	Camau gweithredu gan y gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
Nid oedd angen cynllun gwella ar unwaith ar gyfer yr arolygiad hwn.				

Atodiad C - Cynllun gwella

Gwasanaeth: CosmeticliniC

Dyddiad yr arolygiad: 03 Rhagfyr 2025

Mae'r tabl isod yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad, lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella sy'n dweud wrthym am y camau y mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn.

Yr hyn sydd angen ei wella	Safon/ Rheoliad	Camau gweithredu gan y gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
Rhaid i'r rheolwr cofrestredig ddatblygu polisi hebryngwyr a rhoi copi i AGIC pan fydd wedi'i gwblhau.	Rheoliad 15(1)(a) a (b)	Mae polisi addas wedi cael ei ddrafftio a'i amgáu er gwybodaeth.	Dr Kaushal	Wedi'i gwblhau
Rhaid i'r rheolwr cofrestredig sicrhau y caiff cydsyniad ar sail gwybodaeth ei gofnodi bob amser yng nghofnodion y cleifion yn ystod pob ymweliad lle rhoddir triniaeth.	Rheoliad 9(4)(b)	Cafodd y polisi presennol ei adolygu a'i ddiweddarau, a'i amgáu er gwybodaeth.	Dr Kaushal	Wedi'i gwblhau
Rhaid i'r rheolwr cofrestredig adolygu'r polisi cydsynio i gynnwys mwy o fanylion am y weithdrefn i'w dilyn pan nodir	Rheoliad 9(4)(c)	Cafodd y polisi presennol ei adolygu a'i ddiweddarau, a'i amgáu er gwybodaeth.	Dr Kaushal	Wedi'i gwblhau

nad oes gan glaf y galluedd i gydsynio i driniaeth.				
Rhaid i'r rheolwr cofrestredig wneud y canlynol: - Trefnu i asesiad risg iechyd a diogelwch gael ei gwblhau yn y clinig a rhoi copi ohono i AGIC fel tystiolaeth. - Arddangos arwyddion rhybudd addas ar gyfer unrhyw beryglon a nodir, gan gynnwys y rhai a welwyd fel rhan o'r arolygiad.	Rheoliad 19(1)(b)	Bydd y Clinig yn cynnal ei Asesiad Risg Iechyd a Diogelwch blyneddol ym mis Ionawr 2026 - a chaiff copi o'r asesiad ei anfon i AGIC. Caiff unrhyw gamau gan gynnwys arwyddion/rhybuddion ar gyfer unrhyw beryglon a nodwyd eu gweithredu yn dilyn yr archwiliad.	Dr Kaushal	Chwefror 2026
Rhaid i'r rheolwr cofrestredig drefnu gwiriadau rheolaidd o'r cyfarpar canfod tân a chadw cofnod fel tystiolaeth.	Rheoliad 26 (4)(a)	Caiff y gwiriadau hyn eu cwblhau, a chaiff cofnodion eu cadw ar y safle.	Dr Kaushal	Chwefror 2026
Rhaid i'r rheolwr cofrestredig adolygu'r polisiâu ar gyfer diogelu plant ac oedolion agored i niwed i	Rheoliadau 16(1)(a) a (b)	Cafodd y polisi presennol ei adolygu a'i ddiweddarau, a'i amgáu er gwybodaeth.	Dr Kaushal	Wedi'i gwblhau

sicrhau eu bod yn gynhwysfawr ac yn berthnasol i'r clinig a'u bod yn cynnwys y manylion cyswllt priodol ar gyfer y timau diogelu lleol. Dylid darparu copi i AGIC pan fydd hyn wedi'i gwblhau.				
Rhaid i'r rheolwr cofrestredig sicrhau y caiff gwiriadau dyddiol o'r peiriant laser eu cynnal a'u cofnodi.	Rheoliad 15(2)	O ystyried y ffaith nad yw'r system laser yn cael ei defnyddio bob dydd, mae'r Clinig yn cynnal gwiriad o'r system ar y diwrnodau y caiff ei defnyddio. Mae hyn yn cynnwys gwiriadau o'r broses o ddechrau'r peiriant ac ar y cyd â'r Cofnodlyfr Laser, i sicrhau bod y peiriant wedi'i galibradu.	Dr Kaushal	Wedi'i gwblhau
Rhaid i'r rheolwr cofrestredig roi system ar waith i asesu a monitro ansawdd y gwasanaethau a ddarperir yn rheolaidd yn unol â'r rheoliadau.	Rheoliad 19	Yn ogystal â chadw cofnodion cywir a mynd i'r afael ag unrhyw faterion ar unwaith, mae'r clinig hefyd yn casglu adborth drwy holiadur gyda'i gleientiaid bob blwyddyn i asesu canfyddiadau o ansawdd y gwasanaethau a'r ffordd y cânt eu darparu. Caiff yr holl ddata a geir eu hadolygu gan y Clinig.	Dr Kaushal	Wedi'i gwblhau
Rhaid i'r rheolwr cofrestredig sicrhau bod y prosesau ar gyfer	Rheoliad 23(3)(b)	Mae'r Clinig wedi adolygu'r system ffeilio. Mae holl gofnodion y cleifion	Dr Kaushal	Wedi'i gwblhau

cadw a ffeilio data yn y clinig yn cael eu cymhwyso'n gadarn er mwyn sicrhau y caiff data cleifion eu storio a'u caffael yn effeithiol.		bellach ar gael a gellir cael gafael arnynt fel sy'n ofynnol gan y rheoliadau perthnasol.		
---	--	---	--	--

Rhaid i'r adran ganlynol gael ei chwblhau gan gynrychiolydd y gwasanaeth sydd â chyfrifoldeb ac atebolrwydd cyffredinol am sicrhau bod y cynllun gwella yn cael ei roi ar waith.

Cynrychiolydd y gwasanaeth

Enw (priflythrennau): Dr S Kaushal

Teitl swydd: Rheolwr Cofrestredig

Dyddiad: 26/01/2026